

Deinameg Incwm Isel



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil Cymdeithasol

Rhif: 30/2014

1. Comisiynwyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i seilio ar ddadansoddiad o Arolwg Panel Aelwydydd Prydain (BHPS) sy'n ymdrin â'r blynyddoedd 2000 i 2008, gyda phwyslais arbennig ar y cyfnod 2005-2008. Yr arolwg hwn yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy o ddata sy'n caniatáu i ni olrhain unigolion a'u hincwm dros amser. Mae wedi'i ymgorffori yn yr arolwg Deall Cymdeithas bellach, y dechreuodd gwaith maes ar ei gyfer yn 2010, ond nid oedd data mwy diweddar am incwm ar gael ar gyfer y prosiect hwn. Cyflwynir y rhan fwyaf o'r dadansoddiad ar lefel Prydain Fawr, ond deuir i gasgliadau ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru pan fo maint samplau'n caniatáu hynny.
2. Diben yr adroddiad yw edrych mewn ffordd ddeinamig ar dlodi ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol. Mae'n ystyried i ba raddau y mae unigolion yn symud i mewn ac allan o dlodi, nodweddion y rhai hynny sy'n aros mewn tlodi a'r mathau o ddigwyddiadau sy'n gallu achosi i bobl symud i mewn neu allan o dlodi.
3. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn dweud bod unigolyn mewn tlodi os yw incwm ei aelwyd islaw 60% o ganolrif Prydain Fawr yn y flwyddyn honno. Os yw unigolyn mewn tlodi am dair blynedd neu fwy, a hynny mewn cyfnod o bedair blynedd, disgrifir hyn fel tlodi parhaus. Os yw mewn tlodi am flwyddyn neu ddwy, rydym yn cyfeirio at hyn fel tlodi dros dro.
4. Yn ystod y pedair blynedd o 2005 i 2008, roedd cyfran fwy o bobl mewn tlodi yng Nghymru (36%) nag yn Lloegr (33%). Roedd y lefel uwch hon yn deillio o'r ffaith fod mwy o bobl yn profi tlodi dros dro (blwyddyn neu ddwy mewn tlodi) yn hytrach na thlodi parhaus (tair blynedd neu fwy). Roedd lefel gyffredinol y bobl a oedd yn profi tlodi yng Nghymru yr un peth yn 2005-2008 ag yr oedd yn 2000-2003, ond yn 2005-08 roedd cyfran uwch o dlodi dros dro a chyfran is o dlodi parhaus.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Lefelau tlodi parhaus, dros dro ac ailadroddus

Tabl 1.1 Trosolwg o dlodi parhaus a dros dro yng Nghymru a Lloegr

	Tlodi parhaus	Tlodi dros dro	Erioed wedi profi tlodi
	%	%	%
Cymru 2000-2003	15	22	37
Lloegr 2000-2003	10	20	30
Cymru 2005-2008	12	25	36
Lloegr 2005-2008	11	22	33

Ffynhonnell: Cyfresi J-M ac O-R o'r BHPS

Nodweddion pobl sydd mewn tlodi parhaus

Tabl 1.2 Grwpiau sydd â lefelau uchel o dlodi parhaus neu dlodi dros dro 2005-2008

	Mewn tlodi parhaus	Mewn tlodi dros dro	Heb fod mewn tlodi
	%	%	%
Aelwydydd pâr o bensiynwyr	15	21	64
Aelwydydd pensiynwr unigol	24	25	51
Aelwydydd unig riant	25	36	61
Aelwydydd sydd bob amser heb waith	42	37	21
Aelwydydd sydd bob amser yn gweithio	4	15	81
Aelwydydd sy'n cynnwys unigolyn anabl	15	27	58
Aelwydydd lle nad oes gan y penteulu gymwysterau	22	29	49
Tai cymdeithasol ar rent	24	34	42

Ffynhonnell: Cyfresi O-R o'r BHPS (2005 i 2008)

- Ledled Prydain Fawr yn gyffredinol, roedd cyfran gymharol uchel o bensiynwyr mewn tlodi parhaus a thlodi dros dro rhwng 2005 a 2008. Pensiynwyr unigol oedd â'r lefel uchaf - roedd bron i un ym mhob pedwar mewn tlodi parhaus. Roedd y gyfran yn debyg o ran y rhai hynny mewn aelwydydd unig riant. Fodd bynnag, dylem bwysleisio bod y mesur o incwm a ddefnyddiwn - sef y mesur yn y set ddata BHPS - yn cael ei gyfrifo cyn i gostau tai gael eu didynnu. Mae pensiynwyr yn dueddol o fod â chostau tai isel, ac felly maent yn debygol o fod â lefel sylweddol is o dlodi parhaus neu dlodi dros dro ar ôl i gostau tai gael eu didynnu.
- Ledled Prydain Fawr yn gyffredinol, roedd bron i bedair rhan o bump o'r bobl o oedran gweithio a oedd yn byw mewn aelwydydd a oedd heb waith ar hyd y cyfnod 2005-2008 wedi profi rhywfaint o dlodi. Roedd oddeutu hanner y tlodi hwn yn dlodi parhaus.

7. Roedd lefel isel (sef 4%) o dlodi parhaus mewn aelwydydd lle yr oedd rhywun yn gweithio yn ystod pob un o'r pedair blynedd. Fodd bynnag, mae aelwydydd o'r fath yn gyffredin iawn, gan gynrychioli bron i ddwy ran o dair o'r holl aelwydydd. Mae hyn yn golygu, ymhlith aelwydydd o oedran gweithio, fod pobl mewn aelwydydd lle yr oedd o leiaf un oedolyn yn gweithio bob amser yn cynrychioli mwy na thraean o'r bobl mewn tlodi parhaus a mwy na hanner y rhai hynny mewn tlodi dros dro.
8. Roedd cyfran uwch o aelwydydd heb waith yng Nghymru nag yn Lloegr, a chyfran is o aelwydydd a oedd bob amser yn gweithio. Cyfrannodd hyn at y lefel uwch o dlodi parhaus a thlodi dros dro yng Nghymru. Ym Mhrydain yn gyffredinol, roedd oddeutu un o bob tri unigolyn a brofodd dlodi rhwng 2005 a 2008 yn byw mewn aelwyd a oedd yn cynnwys oedolyn anabl hefyd. Mae lefel uwch o anabledd ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain, ac mae hyn yn cyfrannu at y lefelau uwch o bobl sydd heb waith a'r lefelau uwch o dlodi yng Nghymru.
9. Roedd oddeutu 24% o'r bobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol ar rent mewn tlodi parhaus (cyn didynnu costau tai) rhwng 2005 a 2008 ledled Prydain Fawr yn gyffredinol. Mewn tai preifat ar rent, y ffigur oedd 11%. Roedd lefelau tlodi yn uchel hefyd mewn aelwydydd yr oedd pobl yn berchen arnynt yn llwyr, a hynny'n bennaf oherwydd y lefel uchel o dlodi ymhlith pensïynwyr.

Symud i mewn ac allan o dlodi

10. Mae'r tabl isod yn ymwneud â'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â symud i mewn ac allan o dlodi. Mae'n edrych ar gyfran y bobl a symudodd i mewn neu allan o dlodi yn yr un flwyddyn ag un o'r digwyddiadau hyn. Mae'n dangos cyfran yr holl symudiadau i mewn neu allan o dlodi y mae pob digwyddiad yn gysylltiedig â hi.

Tabl 1.3 Digwyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â symud i mewn ac allan o dlodi ym Mhrydain Fawr

Digwyddiad sy'n gysylltiedig â symud allan o dlodi	Cyfran a symudodd allan o dlodi	Cyfran yr holl symudiadau allan o dlodi	Digwyddiad sy'n gysylltiedig â symud i mewn i dlodi	Cyfran a symudodd i mewn i dlodi	Cyfran yr holl symudiadau i mewn i dlodi
	%	%		%	%
Ddim yn aelwyd sydd heb waith mwyach	52	13	Wedi dod yn aelwyd sydd heb waith	37	17
Cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio (mewn aelwyd sydd eisoes yn gweithio)	50	12	Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gweithio (mewn aelwyd sy'n gweithio o hyd)	10	12
Newid o fod yn unig riant i bâr gyda phlant	55	2	Newid o fod yn bâr gyda phlant i unig riant	43	4
Cynnydd mewn incwm o fudd-daliadau	49	48	Gostyngiad mewn incwm o fudd-daliadau	20	41
Cynnydd mewn incwm pensiwn	76	11	Gostyngiad mewn incwm pensiwn	16	9
Cynnydd mewn incwm a enillwyd	67	44	Gostyngiad mewn incwm a enillwyd	21	63

Ffynhonnell: Cyfresi O i R y BHPS (2005 i 2008)

11. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n gweithio mewn aelwyd yn gysylltiedig â symud allan o dlodi mewn oddeutu hanner yr achosion. Mae hyn yn wir ar gyfer aelwydydd lle nad oedd oedolyn yn gweithio o'r blaen, ac ar gyfer aelwydydd lle'r oedd rhai oedolion (ond nid pob un ohonynt) yn gweithio o'r blaen. Roedd oddeutu un o bob pedwar o'r achosion o symud allan o dlodi mewn aelwyd lle'r oedd nifer yr oedolion sy'n gweithio wedi cynyddu.
12. Roedd ychydig o dan draean o'r holl symudiadau i mewn i dlodi wedi digwydd mewn aelwydydd lle'r oedd nifer yr oedolion sy'n gweithio wedi gostwng. Roedd mwy na thraean o'r bobl mewn aelwydydd a ddaeth yn aelwydydd a oedd heb waith wedi symud i dlodi. Roedd un rhan o ddeg o'r rheiny a oedd yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd nifer yr oedolion o oedran gweithio wedi gostwng (ond lle'r oedd o leiaf un oedolyn yn dal i fod yn gweithio) wedi symud i dlodi.
13. Mae newidiadau i gyfansoddiad y teulu yn gwneud gwahaniaeth mawr, ond maent yn anghyffredin. Roedd mwy na hanner y bobl mewn teuluoedd a newidiodd o fod yn bâr o rieni i unig rieni wedi symud i dlodi. Fodd bynnag, mae digwyddiadau o'r fath yn anghyffredin o flwyddyn i flwyddyn, felly roeddent yn cynrychioli 4% yn unig o'r holl symudiadau i dlodi. Yn yr un modd, roedd oddeutu hanner y teuluoedd unig riant a ddaeth yn 'deuluoedd â phâr o rieni' wedi symud allan o dlodi, ond roedd symudiadau o'r fath yn cynrychioli 2% yn unig o'r holl symudiadau allan o dlodi.

14. Gall cynnydd mewn budd-daliadau a ffynonellau eraill o incwm arwain at symud allan o dlodi. Roedd oddeutu hanner yr achosion o symud allan o dlodi wedi digwydd mewn aelwydydd lle y cafwyd cynnydd mewn budd-daliadau. Roedd un o bob naw o'r achosion hyn wedi digwydd mewn aelwydydd lle y cafwyd cynnydd mewn incwm pensiwn. Ar y llaw arall, roedd gostyngiad mewn incwm yn gysylltiedig â symud i dlodi. Fodd bynnag, dim ond oddeutu un o bob pump o bobl mewn aelwydydd lle'r oedd yr incwm a enillwyd neu'r incwm o fudd-daliadau wedi gostwng a symudodd i dlodi, a dim ond un o bob chwech o'r rhai hynny mewn aelwydydd lle'r oedd yr incwm pensiwn wedi gostwng.

Sut mae tlodi parhaus yn wahanol i dlodi "ar adeg benodol"?

15. Mae llawer o'r drafodaeth ynglŷn â thlodi wedi'i seilio ar amcangyfrif ar adeg benodol, yn hytrach na'r mesurau parhaus neu dros dro yn yr adroddiad hwn. Mae lefel y tlodi parhaus a'r tlodi dros dro yng Nghymru a ganfyddwn yn ein dadansoddiad yn gyson â'r amcangyfrifon "ar adeg benodol" o'r set ddata Aelwydydd ag Incwm Islaw'r Cyfartaledd. Mae tlodi parhaus a thlodi "ar adeg benodol" yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Fodd bynnag, mae lefel Cymru yn debyg i'r lefel a geir yng Ngogledd a Chanolbarth Lloegr.
16. O ran cyfansoddiad tlodi, y prif wahaniaeth rhwng tlodi parhaus a'r amcangyfrifon yw'r gyfran uchel o bensiynwyr sydd mewn tlodi parhaus o gymharu â thlodi "ar adeg benodol". Canfyddwn fod 24% o'r rhai hynny sydd mewn tlodi, ar unrhyw un adeg benodol, yn byw mewn aelwydydd pensiynwyr (gweler Aelwydydd ag Incwm Islaw'r Cyfartaledd, 2007/08, yr Adran Gwaith a Phensiynau). Fodd bynnag, wrth ystyried y rheiny sydd mewn tlodi parhaus dros gyfnod o bedair blynedd, mae 49% mewn aelwydydd pensiynwyr. Y rheswm am hyn yw bod incwm pensiynwyr gryn dipyn yn fwy sefydlog – mae llawer llai o gyfleoedd i gynyddu enillion trwy newid swydd neu weithio mwy o oriau.
17. Ac eithrio pensiynwyr, roedd oddeutu dwy ran o dair o'r rhai hynny a oedd mewn tlodi parhaus yn byw mewn aelwydydd a oedd heb fod yn gweithio. Mae hyn yn cymharu ag ychydig yn llai na hanner y rhai hynny a oedd mewn tlodi ar adeg benodol. Felly, mae bod heb waith yn rhan fwy arwyddocaol o dlodi parhaus na thlodi ar adeg benodol. Er hynny, mae'n golygu bod lleiafrif arwyddocaol o bobl sy'n gweithio ond yn dal i fyw mewn tlodi.
18. Mae'n dilyn felly bod unigolion a chanddynt nodweddion sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o fod heb waith hefyd yn cynrychioli cyfran fwy o'r bobl sydd mewn tlodi parhaus na thlodi ar adeg benodol. Er enghraifft, yn gyffredinol, mae mwy o bobl sydd heb waith yn byw mewn tai cymdeithasol ar rent nag mewn mathau eraill o ddeiliadaethau. O ganlyniad, canfuwyd cyfran uwch o dlodi parhaus na thlodi ar adeg benodol ymhlith y rhai hynny a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol ar rent.

Newidiadau ers 2008

19. Mae'r data a ddadansoddir gennym yn yr adroddiad hwn yn cyrraedd 2008, sef dechreuad y dirywiad economaidd. Ers hynny, mae nifer o newidiadau wedi digwydd y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ein canfyddiadau.

20. Yn gyntaf, mae diweithdra yn uwch yng Nghymru ar hyn o bryd nag yr oedd yn 2008. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer chwarter llawn, o fis Gorffennaf i fis Medi 2012, yn dangos bod 121,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn draean yn uwch na hwnnw ar gyfer yr un chwarter yn 2008, sef 94,000. Mae bron ddwywaith cymaint â'r ffigur ar gyfer 2005, ar ddechrau cyfnod ein dadansoddiad, pan oedd 64,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru. Ers 2008, mae'r cynnydd mewn diweithdra yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr. Yn ogystal, roedd cyfran y bobl economaidd anweithgar yn uwch yng Nghymru (25%) nag yn Lloegr (22%), er bod y ddwy gyfradd yn is yn 2012 nag yn 2008.
21. Rydym hefyd yn gwybod bod hyd cyfnod o ddiweithdra yn bwysig. Yn 2012, roedd oddeutu 33,000 o bobl yng Nghymru wedi bod yn hawlio lwfans ceisio gwaith am fwy na chwe mis. Mae'r ffigur hwn tua thair gwaith yn fwy na'r ffigurau ar gyfer 2008 a 2005, ac mae'n cynrychioli cynnydd cyflymach na gweddill Prydain Fawr. Roedd 20,000 o bobl yn hawlio yng Nghymru am fwy na blwyddyn, sydd bron i bedair gwaith yn fwy na ffigur 2008 ac, unwaith eto, yn cynrychioli cynnydd cyflymach na gweddill Prydain Fawr.
22. Yn yr adroddiad hwn rydym yn ystyried y sefyllfa o fod heb waith yn gyffredinol, yn hytrach na diweithdra yn unig. Felly, os canolbwyntiwn ar yr holl oedolion o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith cyflogedig, gwelwn gynnydd llai dramatig. Yn ystod trydydd chwarter 2012, roedd 595,000 o bobl o oedran gweithio (16-64 oed) heb waith. Mae'r ffigur hwn bron yn union yr un peth â'r ffigur ar gyfer yr un chwarter yn 2008, a 40,000 yn uwch na'r ffigur ar gyfer yr un cyfnod yn 2005.
23. Felly, mae'r amodau yn y farchnad lafur wedi dirywio ar y cyfan, er hynny'n fwy amlwg ar gyfer rhai mesurau nag eraill. Fodd bynnag, nid yw cyfran gyffredinol y bobl sy'n byw mewn tlodi wedi newid llawer. Gan ddefnyddio'r ffigurau "ar adeg benodol" o'r set ddata Aelwydydd ag Incwm Islaw'r Cyfartaledd, gwelwn nad oedd y gyfradd dlodi ar gyfer oedolion o oedran gweithio (a gyfrifwyd cyn costau tai) wedi newid yn ystod y tair blynedd hyd at 2011 o gymharu â'r tair blynedd hyd at 2008. Mewn gwirionedd, roedd y lefel yng Nghymru yn is ar gyfer plant yn y tair blynedd ddiweddaraf nag yn y cyfnod cynharach. O ran y mesur ar ôl costau tai, nid oedd y ffigurau ar gyfer plant ac oedolion o oedran gweithio wedi newid rhwng 2008 a 2011. Gyda'i gilydd, felly, bu rhai newidiadau i'r farchnad lafur ers 2008 y gellid disgwyl iddynt gynyddu tlodi parhaus a thlodi dros dro. Fodd bynnag, nid oedd y newidiadau hyn wedi cael yr effaith ddisgwylidig erbyn 2010/11, sef y cyfnod y mae'r data diweddaraf ar Aelwydydd ag Incwm Islaw'r Cyfartaledd yn cyfeirio ato.

24. Mae diwygiadau i'r system fudd-daliadau a wnaed ers 2008, ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2013, y gellid disgwyl iddynt gynyddu nifer y bobl sydd mewn tlodi, er nad o reidrwydd nifer y bobl sydd mewn tlodi parhaus. Mae nifer o newidiadau y disgwylir iddynt arwain at ostyngiad mewn incwm o fudd-daliadau – mae rhai o'r enghreifftiau amlycaf yn cynnwys y gostyngiad 20% mewn llwyth achosion Lwfans Byw i'r Anabl yn sgil cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Bersonol, y terfyn cyffredinol ar fudd-daliadau, y gosb danfeddiannaeth a'r cynnydd islaw chwyddiant mewn budd-daliadau ar gyfer pobl sydd mewn gwaith a phobl sy'n ddi-waith. Mae ein dadansoddiad yn dangos mai gostyngiadau mewn incwm o fudd-daliadau oedd yn gyfrifol am bron i hanner yr holl achosion o symud i dlodi, felly dylid disgwyl cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn tlodi.

Goblygiadau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi

25. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn berthnasol i'r strategaeth wrth-dlodi, yn enwedig o ran y cysylltiadau rhwng tlodi a gwaith. Yn gyntaf, ceir mwy o achosion o dlodi parhaus mewn aelwydydd sydd heb fod yn gweithio na thlodi ar adeg benodol. Mewn hanner yr achosion, mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio yn gysylltiedig â symud allan o dlodi, felly gall gwaith fod yn llwybr effeithiol allan o dlodi. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o bobl sy'n gweithio yn profi tlodi, a hwnnw'n dlodi parhaus hyd yn oed. Felly mae'n bosibl na fydd dod o hyd i waith ynddo'i hun yn ddigon – mae lefel y tâl yn bwysig hefyd, yn ogystal â nifer yr oriau gwaith. Yn yr un modd, er bod dod o hyd i waith yn bwysig, mae cadw swydd yn hollbwysig hefyd. Ceir cysylltiad cryf rhwng colli swydd a symud i dlodi.
26. Mae nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd sydd heb fod yn gweithio yn barhaus yn gymharol isel. O ganlyniad, lleiafrif yn unig ydynt o'r rhai hynny sydd mewn tlodi parhaus. Felly, ni fydd canolbwyntio'n unig ar sefyllfa tymor hir o fod heb waith yn cael llawer o effaith ar leihau tlodi cyffredinol, nac ychwaith ar leihau tlodi parhaus. Yn ogystal, er bod cael swydd yn ffordd effeithiol o leihau tlodi, ni fydd bob amser yn bosibl. Mae rhai pobl ag anabledau neu gyfrifoldebau gofalu nad ydynt yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig. Ar gyfer y grwpiau hyn, bydd sicrhau'r incwm mwyaf o ffynonellau heblaw am waith (sef budd-daliadau yn bennaf) yn bwysig, yn ogystal â lliniaru effeithiau tlodi.

Barn ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Awduron:

Sefydliad Polisi Newydd

Cyswllt:

Sarah Lowe

Ffôn: 029 2082 6229

Ebost: sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-1078-7

© Crown Copyright 2014